

## Dadansoddiad: Ymatebion Awdurdodau Lleol i ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhagfyr 2015

[cymdeithas.cymru](http://cymdeithas.cymru)

| Awdurdod / Cyswllt   | Adolygu CDLI yn sgil pasio'r Ddeddf? | Newid polisi yn sgil ystyriaeth berthnasol i'r Gymraeg? | Ymateb                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|----------------------|--------------------------------------|---------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Abertawe</b>      | Amherthnasol                         | Posib, heb benderfynu eto                               | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn y broses o lunio CDLI – ymgynghoriad yn gynnar yn 2016.</li> <li>2. Ystyriaeth o safbwynt polisi i nifer o feysydd – gan gynnwys y Gymraeg – ar y gweill.</li> <li>3. Rhoddir ystyriaeth lawn i oblygiadau Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20 a Deddf Cynllunio Cymru 2015.</li> <li>4. Effaith ar y Gymraeg wedi dylanwadu maint a dosbarthiad datblygiadau arfaethedig. Er y potensial i roi pwysau ar Gymraeg, byddai buddion cadarnhaol o'r datblygiadau yn sicrhau cymunedau cynaliadwy.</li> <li>5. Gwaith ar y gweill ar lunio Adroddiad Pwnc ar yr iaith Gymraeg a'r cynnwys yn debyg o gael ei hadlewyrchu'r CDLI.</li> </ol>                                                                                                                                                                       |
| <b>Blaenau Gwent</b> | Na                                   | Na                                                      | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Adolygiad Tachwedd 2016 i gynnwys ystyried y Gymraeg fel rhan o'r "gwerthusiad Cynaliadwyedd"</li> <li>2. "... the Council concluded that the Welsh Language was not an issue for the Borough. It was considered that there was no need for a specific LDP policy on Welsh language..."</li> </ol>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Bro Morgannwg</b> | Na                                   | Na                                                      | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Disgwyl am arweiniad gan Lywodraeth Cymru</li> </ol>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Caerdydd</b>      | Ddim yn gwybod                       | Ddim yn gwybod                                          | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn bwriadu gweithio oddi fewn i fframwaith Deddf Cynllunio Cymru 2015.</li> <li>2. Wedi ystyried tystiolaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.</li> <li>3. CDLI wedi cyrraedd y cam archwilio.</li> <li>4. Arolygwr a benodwyd - archwilio'r Cynllun wedi gofyn i'r Cyngor ddarparu datganiad sefyllfa o fuddiannau'r Gymraeg – "casgliad nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol. Mae hyn yn golygu nad ystyrir bod cynigion datblygu yn y Cynllun yn effeithio'n faterol ar gydbwysedd ieithyddol cymunedau ledled Caerdydd."</li> <li>5. "Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth Gymreig ond ar ôl asesu dwysedd y defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y ddinas, ni chaiff ei ystyried yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef yn y Cynllun."</li> </ol> |
| <b>Caerffili</b>     | Na                                   | Na                                                      | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ni fydd effaith y Mesur Cynllunio yn dod yn amlwg nes i'r is-ddeddfwriaeth a pholisi/canllawiau cenedlaethol cael ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru</li> <li>2. Cydnabyddir arweiniad NCT 20 ond cyfeirir at bara 4.1 "Ni ddylai ceisiadau cynllunio fod yn destun asesiad effaith iaith Gymraeg gan y byddai hyn yn dyblygu ar brosesau dewis safle CDLI lle nododd amcanion y CDLI am asesiad o'r fath."</li> </ol>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |

|                                 |                                      |          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
|---------------------------------|--------------------------------------|----------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                 |                                      |          | <p>3. Cyfeirir at bara 3.2.1 o NCT 20. Ystyrir bod y broses cynaliadwyedd sydd ganddynt yn cydymffurfio â'r canllaw yma. Penderfyniad Llywodraeth Cymru a yw 3.2.1 yn bodloni'r gofyniad yn y Mesur Cynllunio.</p> <p>4. Adolygiad o'r CDLI wedi cychwyn yn 2014 – bwriedir mabwysiadu Cynllun Amnewid yn 2017.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Casnewydd</b>                | Na                                   | Dim ateb | <p>1. Yn ymwybodol o'r Mesur Cynllunio newydd a'r gofyniad bod rhaid ystyried y Gymraeg.</p> <p>2. Bwriedir "ychwanegu pennawd safonol i'r adroddiadau" sydd ganddynt ar ddelio gyda cheisiadau.</p> <p>3. Cydnabod pwysigrwydd amddiffyn y Gymraeg a'r statws atgyfnerthiedig yn y Mesur Cynllunio ac yn bwriadu "rhoi sylw priodol i'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio."</p> <p>4. Cyflwynwyd y CDLI ym mis Ionawr 2015. Codwyd effaith ar y Gymraeg "yn fras" gan yr Arolygydd. Gan mae ond 2-4% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg "nad yw'r Gymraeg yn rhan arwyddocaol o'r sylfaen cymdeithasol yng Nghasnewydd." (noder bod ffigwr y Cyngor yn anghywir - mae tua 9.3% o boblogaeth y sir yn siarad Cymraeg)</p> <p>5. Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref a bydd yn ystyried effaith y Mesur Cynllunio newydd ar y CDLI – ond mae'n annhebygol y bydd yr elfen hon yn unig yn arwain at adolygiad o'r CDLI.</p> |
| <b>Castell-nedd Port Talbot</b> | Na                                   | Na       | <p>1. Ymgynghoriad ar y CDLI wedi dod i ben Awst 2015.</p> <p>2. Wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLI ac wedi nodi pedair ardal sensitif o ran y Gymraeg yn y fwrdeistref sirol – Dyffryn Aman, Cwm Tawe, Pontardawe, a'r Creunant.</p> <p>3. Polisi yn gofyn am gyflwyno rhagor o Asesiadau Effaith ar y Gymraeg er mwyn ategu ceisiadau cynllunio yn yr ardaloedd sensitif – datblygiadau preswyl o ddeg neu fwy.</p> <p>4. Bwriedir rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw arweiniad pellach gan y Llywodraeth.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <b>Ceredigion</b>               | Na                                   | Na       | <p>1. Gwnaethpwyd asesiad effaith y CDLI ar yr iaith drwy'r arfarniad cynaliadwyedd</p> <p>2. Maent yn disgwyl canllawiau pellach gan y Llywodraeth ynghylch ystyriaeth berthnasol</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <b>Conwy</b>                    | Na                                   | Na       | <p>1. "Yng Nghonwy mae'r Gymraeg eisoes yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio "</p> <p>2. "ystyrir bod y Cynllun Datblygu Lleol eisoes yn bodloni gofynion y Bil Cynllunio o ran y Gymraeg, ac felly mae'n annhebygol y byddai angen adolygiad ar y sail hon"</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>Gwynedd</b>                  | Na                                   | Na       | <p>1. Maent yn croesawu ystyriaeth berthnasol</p> <p>2. Mae'r ymateb yn rhestru sut mae ystyried y Gymraeg eisoes yn rhan o'u proses</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Merthyr Tudful</b>           | DIM ATEB                             | DIM ATEB | DIM ATEB                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Pen y bont ar Ogwr</b>       | Na (aros am ganllawiau'r Llywodraeth | Na       | <p>1. "it was not considered that the Plan's major development proposals would materially affect the linguistic balance of the area to the detriment of Welsh language use"</p> <p>2. Byddant yn adolygu polisiau yn sgil canllawiau newydd Llywodraeth Cymru</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |

|                          |                                                 |                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|--------------------------|-------------------------------------------------|------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Powys</b>             | Na                                              | Na                                       | 1. Mae'r awdurdod eisoes yn ystyried y Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol lle bo'n berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>Rhondda Cynon Taf</b> | Na, ond adolygiad 4 mlynedd yn digwydd yn barod | Ddim yn gwybod                           | 1."It is yet to be clarified as to whether the current position, as set out in Technical Advice Note 20 – Planning and the Welsh Language (October 2013) will be carried forward by Welsh Government."<br>2."The Council is keen to understand the position so that appropriate changes can be implemented."                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Sir Benfro</b>        | DIM ATEB                                        | DIM ATEB                                 | DIM ATEB                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Sir Ddinbych</b>      | Na                                              | Na                                       | 1. Mabwysiadwyd y CDLI yn 2013. Mae'r CDLI yn cynnwys polisi effaith ceisiadau cynllunio ar yr iaith Gymraeg(RD5) – “Wrth benderfynu holl geisiadau cynllunio cymerir anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg i ystyriaeth. Gellir gwrthod datblygiad os bydd ei faint, graddfa neu leoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.” Y polisi yn cynnwys trothwyon.<br>2. “Y Gymraeg yn ystyriaeth wrth benderfynu ar bob cais cynllunio.” Y Cyngor wedi mabwysiadu dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol “Cynllunio a'r iaith Gymraeg” ym mis Mawrth 2014.<br>3. Adolygiad o'r CDLI yn dechrau erbyn 2017. Cyflwynir Adroddiadau Monitro yn flynyddol yn ôl y gofyn, i Lywodraeth Cymru – cyflwynwyd ym mis Hydref 2015. |
| <b>Sir Fynwy</b>         | Na                                              | Na                                       | 1.Maent yn ystyried bod y CDLI presennol eisoes wedi cael ei asesu am ei effaith iaith<br>2.Maent yn ystyried bod y NCT 20 eisoes yn gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Sir Gaerfyrddin</b>   | Na                                              | Ie (yn ddibynnol ar ganllawiau)          | 1."Roedd y Gymraeg yn rhan o broses Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLI ac roedd yn destun tystiolaeth bellach benodol ar ôl cyhoeddi'r TAN diwygiedig."<br>2."...bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn monitro ac yn ymateb i newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau yn sgil y Ddeddf yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o hynny. "                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Sir y Fflint</b>      | Na                                              | Ie (adolygu ar y cyd gydag ALLau eraill) | 1."We have yet to adopt our Local Development Plan, but I can assure you that an assessment of the impact on the Welsh language will be integral to the Plan..."<br>2."With respect to the Welsh language as a material consideration in the determination of planning applications, we are currently reviewing our procedures to ensure compliance with any aspect of the Act. local authorities to ensure that there is a consistency of approach. We would also welcome, from yourselves, any examples of best practice in this area to ensure an appropriate way forward. I look forward to hearing from you on that matter."                                                                                                                 |

|                 |          |          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-----------------|----------|----------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Torfaen</b>  | Na       | Na       | <p>1.Nid oes modd dehongli heb ganllawiau Llywodraeth newydd. "Hyd yma, nid yw darpariaethau'r Bil rydych yn cyfeirio atynt wedi eu deddfu ac felly nid oes modd ar hyn o bryd eu dehongli nes bydd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu is-ddeddfwriaeth a pholisi/ganllawiau cynllunio cenedlaethol diwygiedig i gymryd y Ddeddf i ystyriaeth"</p> <p>2."ynglŷn ag asesiad iaith Gymraeg o geisiadau unigol, mae'r polisi cenedlaethol presennol yn glir yn TAN 20 (paragraff 4.1.2) '...Ni ddylid cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu prosesau dewis safleoedd y CDLI lle bo amcanion y CDLI yn nodi bod angen cynnal asesiad o'r fath.' Felly, os nad oes unrhyw newid yn y polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwneud asesiad unigol o effaith ceisiadau cynllunio ar yr iaith Gymraeg."</p> <p>3."...nid oes newid mawr i bolisi/ganllawiau cenedlaethol wedi ei gyhoeddi a fyddai'n ysgogi arolwg yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg."</p> |
| <b>Wrecsam</b>  | Na       | Na       | <p>1. Mae eisoes gyda nhw "Nodyn Canllaw Cynllunio" lleol a ddefnyddir yn ogystal â TAN (Nodyn Cyngor Technegol) 20 i ystyried materion y Gymraeg.</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| <b>Ynys Mon</b> | DIM ATEB | DIM ATEB | DIM ATEB                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |